# GOLWG

AR

# WORKHOUSE MERTHYR TYDFIL,

ODDIAR

Y TYLAU HIR, MYNYDD ABERDAR;

SEF,

## HOLIAD AC ATTEBIAD RHWNG DAU GYFAILL.

---

Ar y Mesur, "Hynod iawn."

---

1. PA beth yw'r adeilad wy'n weled mor wych,
Mal castell tarrenog, ardderchog o ddrych;
Ei wyneb i'r fynwent, a'i dalcen i'r de'—
Ai rhyw foneddigion sy'n llon yn y lle?
Dywed im', dywed im', &c.

2. Ni wna'r boneddigion, wŷr taerion, eu tai
Ar bwys y mynwentydd, fe genfydd pob rhai,
Ond lle i ddyeithriaid, amddifaid, a wnawd,
Addewid gysurus, dyledus i dlawd.
Dyna yw, dyna yw, &c.

3. A geir yno ddawnsio a thiwnio efo thant?
A geir yno lawer o bleser i blant?
A gaiff yr hen bobol gysonol gu saig,
Ac ambell i araeth yn yr hen Iaith Gymraeg?
Dywed im', dywed im', &c.

4. Y lle byddo caethder, pa bleser ga'r plant?
Os bydd fel rhai gweithdai, gwel'd eisiau a gânt,
Ac attal eu rhiaint o'r fraint a roes Duw,
Yr 'stad briodasol i foddol gydfyw.
Dyna'r modd, dyna'r modd, &c.

5. Pwy wneir yn flaenorwr, llywiawdwr y lle?
Ai rhyw ddyn profiadol, naturiol, o'n tre',
Ai yntef ryw *scholar* o Loegr a lysg
I lanw rhyw swyddau 'gael moethau yn ein mysg?
Dywed im', dywed im, &c.

6. Y rhataf arferir, neu fynnir i'r fan,
Yw'r pen a ga borthi a gweini i'r gwan,
Dieithryn fynychaf, a'r trechaf mewn trais,
A'r goreu am *scili*, rhaid sylwi, yw'r Sais.
Dyna'r modd, dyna'r modd, &c.

7. Pan ddelo C'langaua, a'r Gwyliau sy 'w cael,
A geir yno ferwi a phobi heb ffael,
Ac ambell i stori i ddifyru'r rhai fo,
Gan ryw hen ŵr diddan fo a'r cyfan mewn co'?
Dywed im', dywed im', &c.

8. Pwy glywodd am foethau y gwyliau i'w cael,
Na diod er syccwr i hen-wr fu'n hael?
Mewn Gweithdai'n gyffredin amheuthyn nid oes,
A'r stori heb naws dirion, a'r galon mewn gloes.
Dyna'r modd, dyna'r modd, &c.

9. Pan fyddo'r fam dyner, fu syber a syw,
Ac angau y'nghafael, ar 'madael a'r byw,

X205198367

W. 28. 41 (P)

A gaiff hi alw ei meibion, a'i merched heb del,
A rhoddi y'ngwyddfod ei phriod ffarwel?
Dywed im', dywed im', &c.

0. Mae'r ffarwel fynychaf, mewn lleoedd o'r fath,
Rhwng plant a'u rhieni mewn cynni fodd ca'th,
Ar eu dyfodfa mi goelia'n ddigel,
Ac angau yn fendith pan dilyth y del.
Dyna'r modd, dyna'r modd, &c.

11. A oes yno lyfrau, a golau i'w gael,
A phap'rau newyddion, a rhoddion gwŷr hael?
Ac ambell gwpanaid, neu wydraid fo wych,
Pan fyddo'r gwythienau a'u suddiau'n rhy sych?
Dywed im', dywed im', &c.

12. Y mae'r offeiriadau a'u llyfrau 'mhob llaw,
A'r peth a bregethir yw'r *cysur a ddaw*;
Am roddion ni chlywais—pa beth welais di?
Rho glywed yn gwbl dy feddwl i fi.
Dyna'r modd, dyna'r modd, &c.

13. Yr adar symudant mewn rhyddid ar hyd
Y gelltydd, yn hawddgar a boddgar i'r byd;
Ond dyn aflwyddiannus! mae'n hyspys i ni,
Gaethiwir, heb un maint o fraint nag o fri.
Dyna'r modd, dyna'r modd, &c.

14. Caeth-fasnach ddiddymir, aberthir o bell,
Fel gallo dyeithriaid gael gweled byd gwell;

Ond, croes i'n hynafiaid, y Whigiaid a wnaeth
Garcharau i'r tlodion i gyson fyw'n gaeth.
Dyna'r modd, dyna'r modd, &c.

15. O'r dyddiau boreuol, agweddol eu gwên,
Crybwyllir yn gyson am ddynion oedd hên,
Ond oes pobl Prydain Fawr gywrain mewn gwir,
Pan fetho i ddyn weithio, mae hono'n rhy hir.
Dyna'r modd, dyna'r modd, &c.

16. Yn mynwesau dynion, modd creulon, mae'm cred,
Fod dirgel ystyriaeth, gelyniaeth ar led;
Rhyw amser e welir, rhyfeddir yn fawr
Os bydd Gweithdy'n annedd gan' mlynedd i 'nawr.
Dyna'r modd, dyna'r modd, &c.

O. C., 1853. IDRIS DDU a CHEREDIG.

Argraffwyd gan Thomas Howells, Swyddfa'r Gweithwyr, Glebeland, Merthyr.